



**CYNGOR SIR CAERDYDD**

**DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU MEWN  
PERTHYNAS Â  
CHERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT,  
GWEITHDREDWYR  
A GYRWYR**

## CYNNWYS

<u>Math o Drwydded</u>	<u>Tudalen</u>
Cyflwyniad	3
Safonau Cerbyd Cyffredinol	4
Profion Cerbydau	4
Platiau Trwydded	4
	5
Sgriniau Gwynt a Ffenestri	5
Nwy Petrolewm Hylif	5
Offer Ffilmio Camera a Rheoli/Anfon GPS	6
Trwyddedau Cerbydau Hacni	7
Mathau o Gerbydau Hacni	7
Ceisiadau am Drwyddedau Cerbydau Hacni Newydd	8
Hygyrchedd	8
Arddangos Arwyddion a Hysbysebion	9
Trwyddedau Cerbydau Hurio Preifat	11
Arddangos arwyddion a Hysbysebion	12
Trwyddedau Gweithredwr Cerbyd Llogi Preifat	14
Trwyddedau Gyrru Cerbyd Hacni/Llogi Preifat	15
Derbyn Trwyddedau Gyrru gan Wladwriaethau eraill sy'n	16
Aelodau o'r UE	
Profion Gwybodaeth Yrru a Strydoedd	16
Safonau Meddygol	17
Canllawiau ar Berthnasedd Collfarnau	19
System Pwyntiau Cosb	24

## CYFLWYNIAD

Mae'r Cyngor yn cydnabod pob cais ac mae'n penderfynu arnyn nhw yn ôl eu teilyngdod unigol. Er hynny, er cysondeb, er bod yn agored, ac er tegwch, mae Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd wedi mabwysiadu nifer o bolisiau ac egwyddorion cyffredinol dros y blynyddoedd er mwyn llywio'r gwaith o ystyried ceisiadau. Mae'r manylion am y polisiau a'r egwyddorion sy'n berthnasol i weithredwyr, gywrwr a cherbydau hacni a hurio preifat wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon. Blaenoriaethu diogelwch y cyhoedd yn gyntaf oll yw'r brif egwyddor y mae'r awdurdod trwyddedu wedi ei fabwysiadu yn achos cerbydau hacni a hurio preifat. Bydd yr awdurdod yn disgwyl i bob person sy'n gweithio mewn busnes hurio a thalu fod yn addas ac yn briodol, sicrhau ei fod yn cynnal ei gerbyd yn dda, a sicrhau diogelwch a hwylustod i deithwyr sy'n ei ddefnyddio ac sy'n talu'r gost.

Mae gan gerbydau hacni a cherbydau hurio preifat rôl benodol i'w chwarae mewn system drafnidiaeth integredig. Mae modd iddynt gynnig gwasanaeth cludo sy'n ddiogel, sy'n ennyn hyder ac sy'n ymateb i'r galw o ddrws i ddrws mewn amryw amgylchiadau, gan gynnwys pan nad oes modd defnyddio trafndiaeth gyhoeddus (er enghraifft, mewn ardaloedd gwledig neu'r tu allan i oriau "arferol" fel nosweithiau neu ar ddydd Sul), ac i bobl sydd ag anawsterau symudedd

Drwy lunio ei bolisi, mae'r awdurdod trwyddedu am hyrwyddo'r amcanion canlynol:

- (i) Diogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd.
- (ii) Diogelu'r amgylchedd.
- (iii) Darparu gwasanaeth cludo cyhoeddus sy'n effeithlon ac sy'n effeithiol ar gyfer pob rhan o'r gymuned.
- (iv) Darparu a chynnal masnach cerbydau hacni a hurio preifat sy'n broffesiynol ac sy'n uchel ei barch.

Nod y broses drwyddedu, yn y cyd-destun hwn, yw rheoleiddio'r fasnach cerbydau hacni a hurio preifat er mwyn hyrwyddo'r amcanion uchod.

Oherwydd bod materion trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat yn esblygu'n barhaus, mae'n ofynnol ar achlysuron niferus i Bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd addasu neu ddiweddarau ei bolisi ac efallai na fydd newidiadau'n cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen bolisi hon ar unwaith. Bydd yr awdurdod yn ymdrin â phob mater yn ôl ei deilyngdod ond bydd ystyriaeth o'i bolisiau yn rhan o'r gwaith o benderfynu ar geisiadau.

Mae'r awdurdod trwyddedu'n benderfynol o fod mor agored â phosibl pan fydd yn gwneud penderfyniadau, ac o roi llais i'r fasnach mewn penderfyniadau sy'n effeithio arni. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ei gwneud yn bolisi i rannu adroddiadau drafft â'r fasnach cerbydau hacni a hurio preifat cyn eu hystyried er mwyn rhoi cyfle iddi gynnig sylwadau.

## 1. SAFONAU CERBYD CYFFREDINOL

- 1.1 Er mwyn diogelu'r cyhoedd, dim ond cerbydau y mae'r awdurdod yn eu cymeradwyo y caniateir eu defnyddio'n gerbydau hacni neu hurio preifat. Rhaid cyflwyno pob cerbyd er gyfer archwiliad pan fo hynny'n ofynnol, a rhaid iddo gydymffurfio â'r gofynion statudol presennol i gerbydau ffordd. Rhaid iddo fodloni amodau a gofynion yr awdurdod trwyddedu.
- 1.2 Rhaid i safle'r gyrrwr fod ar y dde ym mhob cerbyd a rhaid iddo feddu ar bedwar drws. Ni chaniateir unrhyw osodiadau, heblaw'r sawl y mae'r Cyngor yn eu cymeradwyo, y tu mewn neu'r tu allan i'r cerbyd.
- 1.3 Mae'r awdurdod trwyddedu'n cynnal rhestr o fathau addas o gerbydau. Er mwyn sicrhau bod cerbydau'n ddiogel ac yn gyfforddus, rhaid cymeradwyo bod Cerbydau Math Pwrpasol yn gerbydau hacni addas drwy archwiliad gan Bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd cyn ei ddefnyddio yng Nghaerdydd. Mater i'w Pwyllgor yw'r gwaith o bennu cerbydau 'math arbennig'. Ystyrir ceisiadau yn ôl eu teilyngdod gan ystyried hygyrchedd, ymddangosiad allanol, lle i deithwyr y tu mewn, Moethusrwydd i deithwyr, ansawdd y tu mewn a lle i fagiau.

### 1.4 Profion Cerbydau

Rhaid cynnal profion o bob cerbyd yn unol â safonau gofynnol yr Awdurdod. Bydd angen Tystysgrif Archwilio MOT ar bob cerbyd, a Datganiad Cymhwysedd sy'n ardystio i brofion o eitemau ychwanegol nas archwilir mewn prawf MOT. Rhaid i sefydliad VOSA fod wedi cymeradwyo'r orsaf archwilio yn achos y ddwy a rhaid iddi fod yn Ninas Caerdydd.

Bydd tystysgrif MOT a Datganiad Cymhwysedd yn rhan ofynnol o unrhyw gais am drwydded.

- (a) Cynhelir profion blynyddol o gerbydau a gofrestrwyd gyntaf yn y 4 blynedd diwethaf, ac o'u llwyddo, cyflwynir trwydded 12 mis.
- (b) Cynhelir profion o gerbydau a gofrestrwyd gyntaf fwy na 4 blynedd yn ôl bob chwe mis, ac o'u llwyddo, cyflwynir trwydded 6 mis.
- (c) Yn flynyddol, bydd angen trwyddedu cerbydau pwrpasol y mae'r Cyngor yn eu cydnabod a chynnal profion ohonyn nhw hyd nes yr oedran uchaf o 10 mlynedd.

Rhaid i bob cerbyd fodloni'r gofyniad lliw. Os newidir lliw cerbyd, rhaid gwneud hynny'n broffesiynol gan gynnwys y gist, ac ymylon a fframiau'r drysau.

Os bydd yn methu, dylid trefnu prawf ar unwaith, ac yn yr achos hwn, bydd yr awdurdod yn ymrwmo i drefnu ail brawf cyn pen 7 diwrnod.

Ni fydd trwydded brawf ddilys yn cael ei derbyn, heblaw y'i cyflwynir yn rhan o gais cyn pen 28 o ddiwrnodau ar ôl ei chyhoeddi. Rhaid i'r cerbyd beidio â bod wedi teithio mwy na 2000 o filltiroedd ers adeg cyhoeddi'r dystysgrif.

### 1.5 Platiau Trwydded

- (i) Rhaid i blatiau cerbyd gael eu gosod ar ochr gefn, allanol y cerbyd mewn man hawdd ei weld ac amlwg, naill ai'n uniongyrchol uwchben plât rhif cofrestru'r

cerbyd, yn uniongyrchol dano, yn uniongyrchol i'r chwith neu'n uniongyrchol i'r dde.

- (ii) Rhaid i'r plât gael ei osod yn dynn yn uniongyrchol ar y cerbyd â nytiau a bolltau, sgriwiau tyllu neu hoelion deuben, neu'n anuniongyrchol â braced sydd wedi ei osod ar y cerbyd yn yr un modd.
- (iii) Gosodir y plât mewnol ar ochr fewnol y cerbyd lle y bydd modd i deithwyr ei weld yn hawdd.
- (iv) Dylid dychwelyd platiau allanol i'r Cyngor pan fydd Trwydded yn dod i ben. Codir blaendal a fydd yn cael ei roi yn ôl, a chodir tâl am unrhyw blatiau newydd sydd eu hangen.

#### 1.6 Diffoddwyr Tân ac Olwynion Sbâr

- a) Dylid cadw diffoddwr tân sydd mewn cyflwr da mewn safle hawdd ei gyrraedd yn y cerbyd.
- b) Heblaw y gosodir teiars rhedeg fflat y mae'r gwneuthurwr yn eu cymeradwyo, neu mae ynddo becyn argyfwng i drwsio teiars, rhaid cadw olwyn sbâr maint llawn neu gryno, a'r cyfarpar priodol i newid olwyn.
- c) Os bydd yn rhaid defnyddio olwyn sbâr arbed lle er mwyn cyrraedd pen taith i gwsmer, ni cheir ei defnyddio yn ystod unrhyw deithiau eraill; rhaid newid yr olwyn yn gyntaf.
- ch) Pan fo olwyn wedi ei thrwsio â phecyn argyfwng i drwsio olwyn er mwyn cyrraedd pen taith i gwsmer, ni cheir gyrru'n gyflymach nac yn bellach nag a gyfarwyddir ym mhecyn trwsio'r gwneuthurwr. Ni cheir defnyddio'r cerbyd ar gyfer unrhyw deithiau eraill i gwsmeriaid hyd nes yr atgyweirir y prynir pecyn trwsio newydd.

#### 1.7 Sgriniau Gwynt a Ffenestri

Rhaid i sgriniau gwynt a ffenestri fod mewn cyflwr da, glan, heb ddifrod. Rhaid i o leiaf 75% o olau allu treiddio drwy'r sgrin wynt, a rhaid i o leiaf 70% o olau allu treiddio drwy bob ffenest arall. Ni chaiff cerbydau fod â ffenestri tywyllach heblaw bod y Cyngor wedi caniatáu hynny'n ysgrifenedig.

#### 1.8 Nwy Petrolewm Hylif

Mae'r Pwyllgor wedi cymeradwyo gwaith i drosi cerbydau trwyddedig yn gerbydau dau danwydd, os bydd cwmni'n cynnal y gwaith hwnnw ac yn rhoi tystysgrif i gadarnhau y bu gwaith gosod ac archwilio, a phrofion o'r cerbyd, yn ddigonol, a'u bod yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Cymdeithas Nwy Petrolewm Hylif. Rhaid i'r gwaith i drosi cerbyd trwyddedig beidio ag amharu ar y trefniadau blaenorol o ran cadw olwyn sbâr, a dylai fod digon o le ar gyfer rhagor o fagiau neu gadair olwyn, ar ôl ei phlygu.

## 1.9 Offer Ffilmio Camera a Systemau Rheoli ac Anfon GPS

1.9.1 Caniateir mathau o offer Camerâu CCTV a gymeradwywyd eisoes gan yr Awdurdod, os cânt eu gosod yn unol â chyfarwyddiadau, ac os cydymffurfir â'r amodau canlynol:

- a) Mae arwydd sy'n nodi bod offer ffilmio ar waith yn cael ei arddangos yn amlwg yn y cerbyd, a;
- b) Rhoddir pob llun a gaiff ei lawrlwytho o'r camera i'r Heddlu a Swyddogion Awdurdodedig os byddant yn gofyn amdano.

1.9.2 Caniateir mathau o systemau rheoli ac anfon tacsis â GPS, gan gynnwys dyfais data symudol yn y cerbyd a system anfon ganolog, y mae Cyngor Dinas Caerdydd yn eu cymeradwyo. Rhaid ei gosod yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Nid mesurydd yw'r system GPS. Mewn cerbydau hacni, mae modd ei defnyddio gyda'r mesurydd tacsï cymeradwy, ond rhaid iddi beidio â'i ddisodli.

1.9.3 Mae modd gosod camerâu CCTV sy'n wynebu'r tu blaen er mwyn ffilmio damweiniau ac er mwyn diogelu rhag achosion o dwyllo yswiriant modur, os bodlonir y meini prawf canlynol:

- a) Mae'r camera'n ffilmio'r tu blaen yn unig, ac nid oes modd ei droi i ffilmio'r tu mewn i'r cerbyd;
- b) Nid oes modd i'r system recordio sain;
- c) Mae'r data wedi'i amgryptio a chaiff ei gadw mewn uned y mae modd ei
- ch) gosodir a chynhelir y system yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

gloi;

## 2. TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI

[*Deddfwriaeth – Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976*

### *Rhan III*

*Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847*

*Deddf Trafnidiaeth 1985]*

2.1 Er diogelwch y cyhoedd, mae'n ofynnol i ymgeisydd am gerbyd hacni wneud y canlynol:

- Cwblhau ffurflen gais
- Rhoi dogfen gofrestru V5 y DVLA neu'r Bil Gwerthu os nad oes modd rhoi'r ddogfen V5, a hwn yw'r tro cyntaf y mae'n cael ei drwyddedu.
- Rhoi tystysgrif archwilio mecanyddol y cerbyd
- Rhoi tystysgrif MOT cyfredol
- Rhoi tystysgrif yswiriant hurio cyhoeddus cyfredol
- Cyflwyno tystysgrif Prawf Mesurydd ddilys
- Talu'r ffi briodol.

### 2.2 Mathau o Gerbydau Hacni

Ni chaiff cerbydau eu trwyddedu heblaw eu bod yn addas i'w defnyddio'n gerbydau hacni. Dyma ganllaw gyffredinol ar y mathau o gerbydau y bydd yr awdurdod yn eu cymeradwyo:

**Cerbydau Hacni Salŵn ac MPV** – cedwir rhestr o gerbydau cymeradwy yn y Swyddfa Drwyddedu. Dim ond yn lle cerbydau math salŵn trwyddedig y caiff y cerbydau hynny eu defnyddio, h.y. y sawl sydd â rhif plant rhwng 1 a 400. Rhaid i'r cerbydau fod yn ddu â boned wen. Yn achos cais ar gyfer cerbyd math bws mini, dim ond un sedd yn y rhes flaen y dylid ei chynnwys at ddibenion cyfrif nifer o deithwyr er mwyn sicrhau diogelwch a hwylustod y cyhoedd a'r gyrrwr.

**Cerbydau Hacni Arbennig** - cerbydau salŵn neu MPV yw'r rhain, yr ystyrir eu nodweddion yn well ar sail archwiliad gan Aelodau o Bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd. Caiff y ffaith y'u hystyrir yn gerbydau math arbennig ei nodi ar restr y Swyddfa Drwyddedu o gerbydau cymeradwy. Rhaid iddyn nhw fod yn ddu â boned wen.

**Cerbydau Hacni Pwrpasol** – Mae'r rhain yn gerbydau sydd wedi cael eu gweithgynhyrchu neu eu haddasu'n gerbydau hacni'n benodol sy'n gallu cludo teithiwr mewn cadair olwyn. Rhaid defnyddio'r mathau hyn o gerbyd yn lle hen gerbydau â rhifau plât 401 ac uwch. Rhaid iddyn nhw fod yn ddu â boned wen. Ymhlith cerbydau pwrpasol y mae Taxis Llundain sydd hefyd yn bodloni amodau Cymhwysedd yr Heddlu Metropolitan. Gall y rhain fod yn gwbl ddu ac nid oes rhaid i'w cerbydau fod yn wyn, ond rhaid iddyn nhw fod â System Gloi Ganolog gymeradwy. Dim ond cerbydau hacni pwrpasol iau na 3 oed a gaiff drwydded cerbyd hacni newydd.

Dim ond cerbydau pwrpasol sydd â naill ai cymeradwyaeth Cerbyd Cyfan y Gymuned Ewropeaidd, neu gymeradwyaeth math Nifer Gynhyrchu Isel y DU, yn unig yr ystyrir eu cymeradwyo'n gerbydau modur i gludo teithwyr.

Dyma dabl o fanylion gofynion pob math o gerbyd:

Manyleb	Math o Gerbyd Hacni		
	Cerbyd Salŵn	Cerbyd Arbennig	Pwrpasol
Oedran uchaf adeg y cais cyntaf	25 o fisoedd	Llai na 10 oed	Llai na 10 oed
Yr oedran uchaf a ganiateir	6 oed	10 oed	10 oed
Oedran y mae angen profion blynyddol	Llai na 4 oed	Llai na 4 oed	Dd/B
Lle Gofynnol i'r Pen	Mwy na 32 o fodfeddi	Mwy na 32 o fodfeddi	Dd/B
Lle Gofynnol i'r Coesau	Mwy na 30 o fodfeddi	Mwy na 30 o fodfeddi	Dd/B
Dyfnder Gofynnol y Seddi Cefn	Mwy na 18 o fodfeddi	Mwy na 18 o fodfeddi	Dd/B
Lled Gofynnol y Seddi Cefn	Mwy na 54 o fodfeddi	Mwy na 54 o fodfeddi	Dd/B

### 2.3 Ceisiadau am Drwyddedau Cerbydau Hacni Newydd

Nid yw'r awdurdod trwyddedu wedi gosod unrhyw gyfyngiadau ar nifer y cerbydau hacni y bydd yn eu trwyddedu yn unol â chyngor ymarfer gorau gan yr Adran Drafnidiaeth, sy'n cydnabod bod cyfyngiadau ar y nifer yn aml yn peri cost sy'n atal gweithredwyr rhag dod yn rhan o'r farchnad dacsis. Mae'r Adran Drafnidiaeth yn nodi "Mae hynny'n dangos bod yna bobl sydd am ddod yn rhan o'r farchnad dacsis a chynnig gwasanaeth i'r cyhoedd, ond maent yn cael eu hatal rhag gwneud hynny gan gyfyngiadau ar y nifer. mae'n ymddangos bod hynny'n anodd iawn ei gyfiawnhau." Cyflwynir trwydded cerbyd hacni newydd i ymgeiswyr gan ddibynnu ar yr amodau canlynol:-

- (i) Rhaid i'r cerbyd fod yn llai na thair blynedd oed, o fath y mae'r Awdurdod yn ei gymeradwyo'n gerbyd hacni pwrpasol; a
- (ii) Ni chaiff gyrrwr nad yw wedi'i drwyddedu gan Gyngor Sir Caerdydd ar y pryd ddefnyddio'r cerbyd.

Pan roddir trwydded, dim ond cerbyd pwrpasol all gymryd lle'r cerbyd.

### 2.4 Hygyrchedd

Bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio ar gynigion i wella darpariaeth dacsis ar gyfer pobl ag anableddau'n sylweddol. Mae'r Llywodraeth am rannu'r gwaith i roi'r darpariaethau tacsî ar waith o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn ddau gam.

Mae'r awdurdod yn gwybod ei bod yn fwriad gan yr Adran Drafnidiaeth yn y pendraw gwneud rheoliadau hygyrchedd tacsîs dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail



Anabledd 1995. Diben y rheoliadau fydd diwallu ystod eang o anghenion pobl anabl a byddant yn targedu meysydd lle y mae'n debygol y gwneir yr effaith fwyaf o ran diwallu anghenion pobl anabl, a lle na fydd rhagor o gostau'n peri effaith andwyol. Y rhain fydd yr awdurdodau trwyddedu "cam cyntaf" ac mae Caerdydd yn eu plith. Mae'r awdurdod yn cymeradwyo canllawiau'r Adran Drafnidiaeth ar ddefnyddio cerbydau hacni, ac yn arbennig pwysigrwydd yr egwyddor, "dylai person anabl allu trefnu gwasanaeth tacsï heb rybuddio ymlaen llaw, gan wynebu cyn lleied o oedi ac anghyfleustra â phosibl. Mae hynny'n bosibl pan fo tacsï hygyrch ar gael." Bydd yr awdurdod yn cefnogi'r defnydd o gerbydau hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwynion mewn fflyd cymysg o gerbydau.

## 2.5 Arddangos Arwyddion a Hysbysebion

Er mwyn cynnal y safonau cerbyd hacni y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl, ni osodir unrhyw arwyddion neu hysbysebion, heblaw'r rheini y mae'r Cyngor wedi'u cymeradwyo, y tu mewn neu'r tu allan i gerbyd. Mae'r amodau canlynol yn berthnasol.

### A. Cerbydau Hacni Salw'n

- (a) Caniateir hysbysebion allanol ar ochr allanol panel y drws ffrynt, cyn belled â nad yw'n fwy na maint y panel, a chyn belled â dim ond un hysbyseb sydd. Ni chaniateir unrhyw hysbysebion eraill ar ran allanol o'r cerbyd.
- (b) Caniateir hysbysebion "innervision" yn y sgrin wynt sy'n dryloyw, cyn belled â'u bod yn llai nag wyth modfedd o ddyfnder a chyn belled â na ddangosir unrhyw hysbysebion eraill ar y cerbyd.
- (c) Cymeradwyir hysbysebion allanol ar gapiau'r olwynion sydd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod yn ysgrifenedig cyn eu defnyddio, ac sy'n hysbysebu'r un cynnyrch neu wasanaeth â hysbysebion eraill ar y cerbyd.
- (ch) Cymeradwyir hysbysebion allanol sydd wedi'u goleuo ar y to ac sydd wedi'u gosod yn barhaol ar y cerbyd, os yw'r awdurdod wedi'i gymeradwyo'n ysgrifenedig cyn eu defnyddio.

### B. Cerbydau Hacni Pwrpasol

- (a) Caniateir hysbysebion allanol ar ochrau allanol paneli'r drws ffrynt, cyn belled â nad yw'n fwy na maint panel y drws, a chyn belled â dim ond un hysbyseb sydd. Ni chaniateir unrhyw hysbysebion eraill ar ran allanol o'r cerbyd.
- (b) Caniateir hysbysebion ar ddrysau dwbl Cerbydau Hacni pwrpasol cyn belled â dim ond un hysbyseb sy'n ymestyn ar y ddau ddrws, nid yw'n fwy na phaneli'r ddau ddrws, ac nid oes unrhyw hysbysebion arall ar ran allanol o'r cerbyd.
- (c) Caniateir hysbysebion "innervision" tryloyw ar sgrin wynt, cyn belled â'u bod yn llai nag wyth modfedd o ddyfnder a chyn belled â na ddangosir unrhyw hysbysebion eraill ar y cerbyd.
- (ch) Caniateir hysbysebion ar waelod y seddi plygu. Ni chânt fod yn fwy na 14" x 14".
- (d) Caniateir hysbysebion mewnol ar y bared mewnol ac ni chânt fod yn fwy na 39" x 4".

- (dd) Caniateir arwyddluniau allanol llawn o un cynnyrch ar y cerbyd cyfan os bydd yr awdurdod yn cymeradwyo hynny cyn iddynt gael eu defnyddio. Dim ond i gerbydau pwrpasol, sy'n bodloni Amodau Cymhwysedd yr Heddlu Metropolitaidd y mae'r amod hwn yn berthnasol.
- (e) Caniateir arwyddluniau allanol llawn o un cynnyrch ar ochrau cyfan y cerbyd yn y fformat superside neu'r fformat megaside, os bydd yr awdurdod yn cymeradwyo hynny cyn iddynt gael eu defnyddio.
- (f) Cymeradwyir hysbysebion allanol ar gapiau'r olwynion sydd wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdod yn ysgrifenedig cyn eu defnyddio, ac sy'n hysbysebu'r un cynnyrch neu wasanaeth â hysbysebion eraill ar y cerbyd.
- (ff) Caniateir sgrin â hysbysebion sy'n sgrilio neu sy'n symud, os yw wedi'i osod yn dynn, y tu mewn i'r cerbyd, cyn belled â nad yw'r sgrin yng ngolwg gyrrwr y cerbyd. Rhaid i un sleid nodi y bydd y gyrrwr yn diffodd yr hysbysebion ar gais y teithiwr. Rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo pob hysbyseb yn ysgrifenedig cyn iddo gael ei ddefnyddio. I gerbydau pwrpasol sy'n bodloni Amodau Cymhwysedd yr Heddlu Metropolitaidd y mae'r amod hwn yn berthnasol.
- (g) Cymeradwyir hysbysebion allanol ar arwyddion triongl ar y to sydd wedi'u goleuo, ac sydd wedi'u gosod yn barhaol â bolltau drwy'r to, os bydd yr awdurdod yn eu cymeradwyo yn ysgrifenedig cyn iddynt gael eu defnyddio.

haid i bob hysbyseb gydymffurfio â safonau'r Cyngor Safonau Hysbysebu ym mhob mater cysylltiedig â chwaeth, o ran cynnwys ac ymddangosiad, rhaid iddo beidio â thrafod tybaco, alcohol neu faterion â natur rywiol.

Caniateir arwydd allanol ar foned Cerbyd Hacni sy'n dangos y geiriau 'Codir Tâl am Deithiau y Tu Allan i'r Dref yn ôl y Mesurydd' mewn llythrennau du ar gefndir aur.

- 2.6 Mae'r awdurdod trwyddedu wedi sefydlu is-ddeddfau ac amodau trwyddedau safonol ar Gerbydau Hacni a rhaid cydymffurfio â'r rhain.

### 3. TRWYDDEDAU CERBYDAU HURIO PREIFAT

*[Deddfwriaeth – Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 Rhan III Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, Deddf Drafnidiaeth 1985]*

3.1 Rhaid i ymgeisydd am drwydded cerbyd hurio preifat wneud y canlynol:

- Cwblhau ffurflen gais
- Rhoi dogfen gofrestru DVLA neu Fil Gwerthu
- Rhoi tystysgrif archwilio mecanyddol y cerbyd
- Rhoi tystysgrif yswiriant hurio gyfredol at ddibenion hurio a thalu
- Rhoi tystysgrif MOT gyfredol
- Rhoi tystysgrif profi mesurydd (os oes mesurydd tacsï wedi'i osod)

3.2 Er diogelwch a hwylustod teithwyr, dim ond cerbydau y mae'r awdurdod trwyddedu wedi'u cymeradwyo a gaiff drwydded. Mae'r awdurdod trwyddedu'n cynnal rhestr o gerbydau, gan gynnwys y sawl a ystyrir yn gerbydau arbennig, sydd wedi'u cymeradwyo'n gerbydau hurio preifat addas.

3.3 Mae'r awdurdod trwyddedu wedi sefydlu amodau trwydded safonol a rhaid i ddeiliad trwydded gydymffurfio â hwy.

3.4 Er diogelwch y cyhoedd, mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu'r polisiau canlynol:

- (a) Rhaid i gerbydau a gyflwynir ar gyfer eu trwyddedu'r tro cyntaf fod yn 25 mis oed neu'n iau, ac ni chânt eu trwyddedu eto os ydynt yn fwy na 6 blwydd oed.
- (b) Rhaid i unrhyw gerbyd yn nosbarth Cerbyd Arbennig yr awdurdod trwyddedu fod yn llai na 10 mlynedd oed, ac ni chaiff ei drwyddedu eto os yw'n fwy na 10 mlwydd oed.
- (c) Rhaid cynnal profion blynyddol o gerbydau a gofrestrwyd gyntaf yn y 4 blynedd diwethaf, ac o'u llwyddo, cyflwynir trwydded 12 mis ar eu cyfer.
- (ch) Rhaid cynnal profion o gerbydau a gofrestrwyd gyntaf fwy na 4 blynedd ôl bob chwe mis, ac o'u llwyddo, cyflwynir trwydded 6 mis ar eu cyfer.
- (d) Ni fydd gan gerbydau wydr tywyll heb ganiatâd ysgrifenedig y Cyngor.
- (dd) Yn achos cais ar gyfer cerbyd math bws mini, dim ond un sedd yn y rhes flaen y dylid ei chynnwys at ddibenion cyfrif y nifer uchaf o deithwyr, er mwyn sicrhau diogelwch a hwylustod y cyhoedd a'r gyrrwr.
- (e) Ni chaniateir unrhyw osodiadau nac arwyddion, heblaw'r sawl y mae'r Cyngor wedi eu cymeradwyo, y tu mewn neu'r tu allan i'r cerbyd.
- (f) Pan fo enw cofrestredig y cwmni'n cynnwys y gair "cab" neu "tacsï", rhaid hefyd cynnwys y geiriau "hurio preifat" mewn llythrennau nad ydynt yn llai na 2 fodfedd o daldra.

3.5 Nid oes cyfyngiad ar liw cerbydau, cyn belled â nad ydynt yn lliwiau cerbyd hacni, felly **NI CHÂNT** fod yn ddu â boned wen. Rhaid iddynt hefyd fod yn unlliw fel y'i disgrifir yn nogfen gofrestru V5 y cerbyd.

3.6 Er mwyn osgoi dryswch ynglŷn â natur cerbyd hurio preifat, caiff mathau o gerbydau sydd wedi'u cymeradwyo'n gerbydau hacni pwrpasol, nad ydynt yn bodloni Amodau Cymhwysedd yr Heddlu Metropolitaidd, eu cymeradwyo'n gerbydau hurio preifat os byddant yn unlliw heblaw du.

3.7 Mae'r awdurdod trwyddedu wedi cytuno diystyru'r gofyniad oedran yn achos cerbydau math ambiwlans sydd wedi'u haddasu'n gerbydau preifat yn benodol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth cludo i'r ysgol yn unol â chontract â Chyngor Caerdydd.

### 3.8 Arddangos Arwyddion a Hysbysebion

Er mwyn cynnal y safonau cerbyd hacni y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl, ni osodir unrhyw arwyddion neu hysbysebion, heblaw'r rheini y mae'r Cyngor wedi'u cymeradwyo, y tu mewn neu'r tu allan i gerbyd. Mae'r amodau canlynol yn berthnasol:

- (a) Caniateir un hysbyseb yn unig ar ochr allanol panel y drws cefn cyn belled â nad yw'n fwy na maint y panel, a chyn belled â nad oes unrhyw hysbysebion allanol eraill ar y cerbyd.
- (b) Caniateir arwyddion fisoraau ac arwyddion ffenest gefn ar yr amodau canlynol:
  - (i) Rhaid iddynt beidio bod yn fwy na 4½ modfedd o ddyfnder;
  - (ii) Rhaid i'r llythrennau beidio bod yn fwy na 3½ modfedd o daldra;
  - (iii) Yn ogystal ag enw'r cwmni, caniateir y rhif ffôn; a
  - (iv) Ni chaiff yr arwydd sgrin ffrynt na'r sgrin cefn fod wedi'u goleuo.
- (c) Pan fo "Cab" neu "Taksi" yn rhan o enw cofrestredig y cwmni mewn unrhyw arwydd, rhaid hefyd gynnwys y geiriau "Hurio Preifat" a rhaid i'r llythrennau fod yn 2 fodfedd o daldra neu fwy. Pan fo'r enw cofrestredig yn fwy na 2 fodfedd o daldra, rhaid i'r geiriau "Hurio Preifat" fod yr un maint â'r enw cofrestredig.
- (ch) Rhaid i bob hysbyseb gydymffurfio â safonau'r Cyngor Hysbysebu ar bob mater cysylltiedig â chwaeth y cynnwys a'r ymddangosiad, a rhaid iddi beidio â thrafod materion cysylltiedig â thybaco, alcohol na materion o natur rywiol.
- (d) Caniateir sgrin â hysbysebion sy'n sgrolio neu sy'n symud, os yw wedi'i osod yn dynn y tu mewn i'r cerbyd, cyn belled â nad yw'r sgrin yng ngolwg gyrrwr y cerbyd. Rhaid i un sleid nodi y diffoddir yr hysbysebion ar gais y teithiwr. Rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo pob hysbyseb unigol yn ysgrifenedig cyn iddi gael ei defnyddio.

3.9 Mae platiau a bathodynau adnabod gweladwy'n bwysig o ran diogelu'r cyhoedd a'r fasnach dacsis. Er hynny, cydnabyddir y gellid peri effaith negyddol o ran diogelwch cwsmeriaid ac ystyriaethau masnachol drwy ei gwneud yn bosibl adnabod y cerbyd mewn nifer fach o achlysuron, er enghraifft yn achos cerbydau sydd â chauffeur, cerbydau uwchraddol a limwsinau. Caiff yr awdurdod trwyddedu roi neu ddiddymu eithriad o ran dangos platiau allanol a defnyddio gwydr tywyll, yn achos cerbydau â chauffeur, cerbydau uwchraddol a limwsinau yn unig. Bernir pob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun,



#### **4. TRWYDDEDAU GWEITHREDWR CERBYD LLOGI PREIFAT**

*[Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976]*

- 4.1 Mae'r Pwyllgor yn ystyried trwyddedau i gynnal safle yn Ninas a Sir Caerdydd ac mae'n cyflwyno trwyddedau sy'n ddilys am hyd at 12 mis. Ni chyflwynir trwydded ar gyfer safle y tu allan i Ddinas Caerdydd er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn dilyn y rheoliadau a'r mesurau gorfodi priodol. Dim ond i'r sawl y'u hystyrir yn addas a phriodol i ddarparu gwasanaeth hurio cerbyd preifat y cyflwynir trwyddedau.
- 4.2 Dim ond gyrrwr a cherbydau y mae awdurdod trwyddedu Caerdydd wedi'u trwyddedu y caiff Gweithredwr eu defnyddio. Dylai Gweithredwr sicrhau bod pob gyrrwr a cherbyd a logir yn cydymffurfio â phob gofyniad trwydded yr Awdurdod Lleol.
- 4.3 Ni chaniateir i drwydded gael ei throsglwyddo i unrhyw berson arall.
- 4.4 Mae'r awdurdod trwyddedu wedi cymeradwyo amodau trwydded safonol a rhaid i ddeiliad trwydded gydymffurfio â hwy.
- 4.5 Bydd y trwyddedai yn darparu ac yn cynnal cofrestr addas, ac ynndi bydd yn nodi'r manylion canlynol am bob contract hurio:
  - (a) Yr amser hurio.
  - (b) Y man casglu.
  - (c) Pen y daith.
  - (ch) Enw'r un sy'n hurio.
  - (d) Rhif trwydded a rhif cofrestru'r cerbyd.
  - (dd) Manylion y gyrrwr.
- 4.6 Caiff cofnodion eu cadw am o leiaf chwe mis, caiff eu trefnu yn ôl amser a rhaid iddynt gael eu cyflwyno ar gyfer archwiliad, ar gais swyddog awdurdodedig y Cyngor neu gwnstabl yr heddlu.
- 4.7 Bydd y trwyddedai yn cynnig manylion am y safle lle y cynhelir y busnes hurio preifat, a rhaid iddo fodloni'r Cyngor bod y safle yn cydymffurfio â gofynion statudol. Yn arbennig, bydd y trwyddedai yn cael unrhyw ganiatâd cynllunio angenrheidiol ar gyfer safle'r busnes cerbydau hurio preifat, ac ni fydd yn cynnal y busnes neu'n caniatáu iddo gael ei gynnal hyd nes bod ganddo'r caniatâd cynllunio sydd ei angen.
- 4.8 Bydd y trwyddedai yn darparu ac yn cadw cofrestr addas, ac ynndi bydd yn nodi gwneuthuriad, rhif cofrestru, dyddiad prynu, newidiadau i ddyluniad/gweithgynhyrchiad, dyddiad gwerthu/dinistrion, enw a chyfeiriad prynwr newydd ar gyfer pob cerbyd yn ei feddiant. Bydd yn cyflwyno'r gofrestr hon ar gais swyddog awdurdodedig o'r Cyngor neu gwnstabl o'r heddlu.

## 5. TRWYDDEDAU GYRRWR CERBYD HACNI / LLOGI PREIFAT

*Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 Rhan III*  
*Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847*  
*Deddf Trafnidiaeth 1985]*

- 5.1 Mae'r awdurdod trwyddedu yn ei gwneud yn ofynnol i yrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat fodloni'r un safon, a bydd yn cyflwyno trwydded sy'n caniatáu i'r deiliad yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Disgwylir i ymgeiswyr fod yn 21 oed neu'n hŷn a chaiff trwydded ei chyflwyno sy'n ddilys am hyd at flwyddyn. Rhaid cydymffurfio ag is-ddeddfau ac amodau priodol y Cyngor mewn perthynas â chludo teithwyr yn rhan o wasanaeth hurio a thalu.
- 5.2 Mae'n ofynnol i ymgeisydd am drwydded wneud y canlynol:
- a) cwblhau ffurflen gais;
  - b) darparu tystiolaeth o fod wedi llwyddo mewn prawf gyrru y DSA;
  - c) rhoi tystiolaeth o fod wedi cyflawni cwrs BTEC Lefel 2 cenedlaethol "Cyflwyniad i Swydd y Gyrrwr Tacsî a Cherbyd Hurio Proffesiynol" yn llwyddiannus.
  - ch) rhoi tystiolaeth o gymhwysedd i weithio yn y DU.
  - d) rhoi tystiolaeth o ffitrwydd meddygol;
  - dd) rhoi tystiolaeth o drwydded yrru DVLA gyfredol;
  - e) rhoi copi caled o'i hanes gyrru gan y DVLA;
  - f) rhoi ffotograffau adnabod maint pasbort;
  - ff) rhoi tystiolaeth o adnabyddiaeth;
  - g) awdurdodi gwiriad o'i hanes o gollfarnau troseddol;
  - ng) talu ffi cais am drwydded;
  - h) llwyddo mewn prawf gwybodaeth strydoedd; a
  - i) ymgymryd â chwrs hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd o fewn 3 mis ar ôl cael trwydded.

Mae'n ofynnol i ymgeisydd sydd am adnewyddu ei drwydded wneud y canlynol:

- a) bod yn ddeiliad trwydded yn bresennol;
- b) cwblhau ffurflen gais;
- c) cyflwyno ei fathodynau adnabod â llun presennol;
- ch) Rhoi trwydded yrru DVLA neu wybodaeth drwydded DVLA sydd wedi'i hargraffu; a
- (d) talu ffi cais adnewyddu;

Rhaid i ymgeisydd sydd wedi bod yn ddeiliad trwydded yn y 12 mis diwethaf wneud y canlynol:

- a) cwblhau ffurflen gais;
- b) cyflwyno ei hen fathodynau adnabod â llun;
- c) rhoi ffotograffau adnabod maint pasbort;
- ch) rhoi tystiolaeth o drwydded yrru DVLA gyfredol;
- d) darparu gwybodaeth DVLA wedi'i hargraffu;
- dd) awdurdodi gwiriad o'i hanes o gollfarnau troseddol;
- e) talu ffi cais adnewyddu; a
- f) darparu tystiolaeth o fod wedi cwblhau Cwrs Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd yn foddhaol.

Rhaid i ymgeisydd sydd yn gwneud cais adnewyddu o fewn tair blynedd fodloni holl ofynion ymgeisydd adnewyddu, ac yn ogystal rhaid iddo:

- a) darparu gwybodaeth DVLA wedi'i hargraffu; a
- b) awdurdodi gwiriad o'i hanes o gollfarnau troseddol.

### 5.3 Derbyn Trwyddedau Gyrru gan Wladwriaethau eraill sy'n Aelodau o'r UE

Mae Adrannau 51 a 59 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, fel y'i deddfwyd, yn nodi bod yn rhaid i ymgeisydd am drwydded gyrrwr cerbyd tacsï neu gerbyd hurio preifat (CHP) fod yn ddeiliad trwydded yrru Prydain Fawr arferol ers o leiaf 12 mis er mwyn cael trwydded gyrrwr tacsï neu CHP. Mae'r gofyniad hwn wedi ei newid ers hynny. Yn Rheoliadau Trwyddedau Gyrru (Trwydded Yrru Gymuned) 1996 (Offeryn Statudol 1996 Rhif 1974) addaswyd adrannau o Ddeddf 1976 er mwyn galluogi trwyddedau gyrru llawn y mae gwladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd wedi eu cyflwyno i gael eu cynnwys yng ngofynion i ymgeiswyr am drwyddedau gyrrwr CHP. Ers yr adeg honno, mae nifer o wladwriaethau yng nghanol a gorllewin Ewrop wedi ymuno â'r UE ac ym marn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Adran Drafnidiaeth, mae gyrrwyr o'r gwladwriaethau sydd wedi ymuno'n ddiweddarach yn gymwys ar gyfer trwydded yrru tacsï neu CHP dan Ddeddf 1976 os ydynt wedi bod yn ddeiliad trwydded yrru ers 12 mis a gyflwynwyd gan Wladwriaeth a ymunodd. Yn ychwanegol, rhoddodd Gorchymyn Dadreoleiddio (Tacsï a Cherbydau Hurio Preifat) 1998 (Offeryn Statudol 1998 Rhif 1946) gydnabyddiaeth i drwyddedau gyrru Gogledd Iwerddon at ddibenion trwyddedu gyrrwr tacsï a CHP dan Ddeddf 1976.

Felly rhaid i bob gyrrwr trwyddedig fod yn ddeiliad trwydded yrru llawn (nid dros dro) gan y DVLA, Gogledd Iwerddon, neu Wladwriaeth yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) ers o leiaf 12 mis. Dyma wladwriaethau'r AEE:

Awstria	Gwlad Belg	Bwlgaria
Cyprus	Y Weriniaeth Tsiec	Denmarc
Estonia	Y Ffindir	Ffrainc
Yr Almaen	Gwlad Groeg	Hwngari
Gwlad yr Îa	Iwerddon	Yr Eidal
Latfia	Liechtenstein	Lithwania
Lwsembwrg	Malta	Yr Iseldiroedd
Norwy	Gwlad Pwyl	Portiwgal
Romania	Slofacia	Slofenia
Sbaen	Sweden	Y Deyrnas Unedig

### 5.4 Profion Gyrru a Gwybodaeth Strydoedd

Mae gan Yrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat gyfrifoldeb arbennig i gludo teithwyr sy'n talu'n ddiogel. Mae'r awdurdod trwyddedu'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr tro cyntaf, neu ymgeiswyr nad ydynt wedi bod yn ddeiliaid trwydded ers 12 mis, lwyddo ym mhrawf gyrru tacsï a phrawf gwybodaeth strydoedd yr Asiantaeth Safonau Gyrru. Rhaid i wybodaeth gyrrwyr am ardal y drwydded fod yn dda ac yn ymarferol, yn enwedig mewn ardal drefol gymhleth fel Dinas Caerdydd.



Mae'r Cyngor wedi penderfynu bod yn rhaid i ymgeiswyr ymgymryd â'r canlynol er mwyn profi eu bod yn 'addas ac yn briodol', sef bod ganddynt wybodaeth effeithiol am y dopograffeg leol:

- (i) prawf gwybodaeth ysgrifenedig sy'n ymdrin â lleoliadau cyffredin ac amodau cysylltiedig â'r drwydded, a
- (ii) prawf llafar sy'n cynnwys cwestiynau am 15 o lwybrau gwahanol i brofi gwybodaeth ymgeiswyr am yr ardal ddaearyddol.

## 5.5 Safonau Meddygol

Mae modd i Ymarferwyr Meddygol weld cyngor ar arfer gorau presennol o ran ffitrwydd meddygol gyrwyr yn y llyfryn "Medical Aspects of Fitness to **Drive**" gan y Comisiwn Meddygol ar Atal Damweiniau yn 1995. Mae'r awdurdod trwyddedu yn derbyn yr argymhelliad y dylai safonau meddygol 'Grŵp 2' y DVLA i yrwyr bysiau a lorïau hefyd fod yn rhan o safonau'r awdurdodau lleol ar gyfer gyrwyr tacsis. Mae'r safonau hyn yn uwch na'r sawl sy'n berthnasol i fodurwyr preifat oherwydd bod gyrwyr galwedigaethol proffesiynol yn treulio cyfnod sylweddol hwy y tu ôl i'r llyw, felly mae'r risg o salwch dirybudd wrth y llyw yn uwch.

Yng ngoleuni argymhellion Panel Cyngorol Meddygol Anrhydeddus yr Ysgrifennydd Gwladol ar Diabetes Mellitus a Gyrru, bydd yr awdurdod yn gwneud safonau C1 yn ofynnol i yrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat sy'n cymryd inswlin at ddiabetes. Pan fo gan ymgeiswyr am drwydded yrrwr, neu yrwyr trwyddedig, yn dibynnu ar inswlin at ddiabetes neu'n datblygu dibynnedd arno, ac mae ganddynt reolaeth dda o'r cyflwr heb gymhlethdodau, cânt eu trin yn "achosion eithriadol" a chaiff eu ceisiadau eu hystyried yn ôl eu teilyngdod unigol.

- 5.6 Mae'r awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd ddatgelu eu holl hanes troseddol. Bydd gwiriad datgelu manwl yn ofynnol gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Bydd y Pwyllgor yn ystyried pob collfarn a ddatgelir, os yw wedi ei disbyddu ai peidio. At ddibenion ystyried y materion hyn, mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu'r canllawiau polisi canlynol.

## 5.7 Canllawiau i Berthnasedd Collfarnau

Yr awdurdod trwyddedu sy'n gyfrifol am sicrhau bod y sawl sy'n cael eu trwyddedu i fod yn Yrwyr Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat yn unigolion addas a phriodol i ymgymryd â'r rôl. Oherwydd hynny, ymchwilir i gefndir troseddol ymgeisydd yn rhan o'r weithdrefn i bennu'r cais drwy wasanaeth Datgelu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) Mae'r awdurdod yn cydymffurfio'n llawn â Chod Ymarfer y SCT.

Polisi cyffredinol yr awdurdod trwyddedu yw trin pob ymgeisydd am drwydded yrrwr cerbyd hacni/hurio preifat yn deg a pheidio â gwahaniaethu yn erbyn ymgeisydd ar sail collfarn amherthnasol neu wybodaeth arall a ddatgelir yn ystod y broses ymgeisio. Mae'r Awdurdod Trwyddedu'n ymrwymo i drin pob ymgeisydd yn deg, yn unol â'i bolisi Cyfle Cyfartal.

At y safbwynt cyffredinol hwn, mabwysiadodd yr awdurdod trwyddedu'r polisi canlynol er mwyn rhoi canllawiau i ymgeiswyr am drwydded yrrwr cerbyd hacni/hurio preifat.

## **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Diben y polisi hwn yw rhoi canllawiau ar y meini prawf y mae'r Awdurdod Trwyddedu'n eu hystyried cyn penderfynu p'un a yw ymgeisydd neu ddeiliad trwydded presennol yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat.
- 1.2 Nod y polisi yw amddiffyn diogelwch y cyhoedd. Mae'n rhoi ystyriaeth i natur lleoliad y Cyngor, ac yn benodol, y math o daith y gallai teithiwr sy'n agored i newid ymgymryd â hi.

## **2. Cyffredinol**

- 2.1 Yn y polisi sydd wedi'i amlinellu isod, Cyngor Caerdydd yw'r Awdurdod Trwyddedu. Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Caerdydd y cyfeirir ato fel 'y Pwyllgor', neu bwyllgor arall y gellir ei benodi o bryd i'w gilydd i ymgymryd â swyddogaethau'r Cyngor mewn perthynas â gwaith trwyddedu gyrrwyr cerbydau hacni/hurio preifat.
- 2.2 Dan ddarpariaethau Adrannau 51 a 59 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu sicrhau bod ymgeisydd sydd am adnewyddu trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat yn unigolyn addas a phriodol i ddal y drwydded honno. Yn rhan o'r camau prosesu cais am drwydded, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymchwilio i gofnod troseddol ymgeisydd. Ni wrthodir trwydded ar sail cofnod troseddol ym mhob achos. Serch hynny, ystyrir unrhyw gollfarnau, rhybuddion, rhybuddiadau neu gyhuddiadau ar sail:
  - Perthnasedd y troseddau i'r drwydded y gwneir cais amdano
  - Difrifoldeb y troseddau, a
  - Faint o amser sydd wedi mynd heibio ers y troseddau
- 2.3 Mae Adran 61 o'r Ddeddf yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu atal trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat dros dro, ei diddymu, neu wrthod derbyn cais i'w hadnewyddu, yn achos unigolyn sydd wedi ei gael yn euog o drosedd sy'n cynnwys anonestrwydd, anweddustr, trais, methiant â chydymffurfio â darpariaethau Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, neu unrhyw achos rhesymol arall.
- 2.4 Mae Gorchymyn (Eithriadau) (Addasu) 2002 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 yn ei gwneud yn bosibl i'r Cyngor roi ystyried i bob collfarn a gofnodwyd yn erbyn ymgeisydd, neu ddeiliad trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat, os yw wedi ei disbyddu ai peidio. Felly bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi ystyriaeth i bob collfarn berthnasol, yn enwedig os oes hanes hir o droseddu neu batrwm diweddar o gyflawni'r un drosedd.
- 2.5 Yn rhan o amodau cyflwyno trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat, rhaid i'r deiliad roi gwybod am unrhyw gollfarnau, cyhuddiadau sy'n aros dyfarniad, neu rybuddiadau syml neu amodol gan yr heddlu, i'r Awdurdod Trwyddedu ar unwaith.

### **3. Trefniadau Dirprwyo**

- 3.1 Fel arfer, caiff y gwaith o gyflwyno neu adnewyddu trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat ei ddirprwyo i swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu.
- 3.2 Pan fo ymgeisydd am drwydded newydd wedi ei gael yn euog o drosedd berthnasol (er enghraifft un sy'n cynnwys anonestrwydd, ymddygiad gwrthgymdeithasol, trais, trosedd yrru ddifrifol neu dor-amod o drwydded) yn y pum mlynedd cyn dyddiad y cais, caiff y cais ei gyfeirio at Bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd ar gyfer ei ystyried. Ni chaiff cais ei gyfeirio at y Pwyllgor ar sail rhybudd syml neu amodol, neu Hysbysiad Cosb Benodedig, o ganlyniad i drosedd berthnasol. Serch hynny, caiff ymgeiswyr eu cyfeirio at y Pwyllgor os ydynt wedi eu cael yn euog o anonestrwydd, anwedduster neu drais, os ydynt wedi cael rhybuddiad syml neu amodol am ymddygiad o'r fath, neu os oes ganddynt hanes o gyflawni'r un drosedd sawl gwaith cyn y cyfnod hwnnw.
- 3.3 Bydd yn ofynnol i yrrwr sydd â thrwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat a gyflwynwyd gan Gyngor Caerdydd sefyll gerbron y Pwyllgor os caiff ei farnu'n euog o drosedd, os yw anonestrwydd, anwedduster, trais, neu fethiant â chydymffurfio â darpariaethau statudol yn rhan ohoni, neu os bydd unrhyw achos rhesymol arall yn ystod cyfnod y drwydded. Bydd "achos rhesymol" yn cynnwys troseddau yn erbyn deddfwriaeth drwyddedu a gallai gynnwys torri is-ddeddfau, neu amodau gyrrwr hurio preifat, neu amodau trwydded cerbyd. Gall y Pwyllgor wedyn arfer ei bwerau i atal, diddymu neu wrthod adnewyddu trwydded.
- 3.4 Yn achos cais i adnewyddu, os yw Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd eisoes wedi ystyried collfarn ar adeg flaenorol a phenderfynodd gyflwyno trwydded, ni chaiff collfarn ei dwyn i sylw'r Pwyllgor eto heb achos rhesymol.
- 3.5 Gall y Rheolwr Gweithredol (Gwasanaethau Trwyddedu Strategol) benderfynu peidio â chyfeirio cais at Bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd os yw ymgeisydd wedi cael collfarn neu rybuddiad am drosedd gymharol lai difrifol, ac mae wedi peidio â throsteddu yn y tair blynedd cyn y cais.
- 3.6 Pan fo deiliad cerbyd hacni / hurio preifat wedi ei gyhuddo o drosedd, a gellid diddymu'r drwydded o ganlyniad i'r drosedd honno, bydd gan swyddogion o'r Cyngor awdurdod dirprwyedig i atal y drwydded. Yn yr achos hwnnw caiff y mater ei gyfeirio at gyfarfod nesaf posibl Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd er mwyn pennu p'un a fydd y drwydded yn parhau i fod wedi ei hatal. Y Pwyllgor sy'n penderfynu p'un a gaiff y drwydded ei adfer.

### **4. Collfarnau, Tor-amod a Throseddau Cyhuddedig**

- 4.1 Nid yw'r wybodaeth isod yn holl gynhwysfawr, ac nid yw wedi ei threfnu yn ôl blaenoriaeth. Ei diben yw rhoi arweiniad i ymgeiswyr ar ffyrdd y Pwyllgor o bennu faint o bwysau sydd gan gollfarn, cyn cyrraedd casgliad ar yr achos dan sylw. Dyma egwyddor gyffredinol:

- i) pennir pob cais yn ôl ei deilyngdod ei hun, a;
- ii) diogelu'r cyhoedd fydd yr ystyriaeth bennaf, a;
- iii) pan fo tystiolaeth sy'n peri amheuaeth sylweddol o addasrwydd neu briodoldeb ymgeisydd neu ddeiliad trwydded, bydd Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd yn dilyn yr egwyddor ragofalus a bydd yn gwrthod y cais, neu'n diddymu'r drwydded.

#### *Troseddau Gyrru Llai Difrifol*

- 4.2 Fel arfer, ni fydd trosedd yrru llai difrifol, er enghraifft os rhoddir tri phwynt cosb amdano, yn sail i wrthod neu ddiddymu trwydded ac ni chaiff ei gyfeirio at y Pwyllgor. Efallai y caiff gyrrwr ei gyfeirio at y Pwyllgor os oes patrwm o gyflawni'r un drosedd yn ystod cyfnod hir o amser.

#### *Troseddau Gyrru Difrifol*

- 4.3 O ganlyniad i gollfarn mewn perthynas â throsedd yrru ddifrifol, er enghraifft os rhoddir rhwng 4 ac 11 pwynt cosb am ei wneud, fel arfer rhoddir rhybudd ysgrifenedig at ymddygiad gyrru yn y dyfodol. Caiff gyrrwyr eu cynghori ar y safonau gofynnol. Pan fo gan ymgeisydd neu ddeiliad trwydded fwy nag un gollfarn am y math hwn o drosedd mewn cyfnod o bum mlynedd cyn dyddiad yr ail gollfarn, caiff y mater ei gyfeirio at Bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd. Bydd y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth i unrhyw gollfarnau blaenorol ac efallai y bydd yn penderfynu gwrthod cais neu ddiddymu trwydded bresennol. Yn achos trosedd mewn perthynas ag yswiriant cerbyd, bydd yn rhaid i ymgeisydd ddangos bod ganddo fodd i gaffael yswiriant at ddefnydd hurio a thalu

#### *Tor-amod Trwydded*

- 4.4 Os bydd swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu, neu swyddog heddlu, yn darganfod bod deiliad trwydded gyrrwr hacni/hurio preifat yn peidio â chydymffurfio â deddfwriaeth drwyddedu, neu ag amodau'r drwydded, caiff rhybudd ysgrifenedig ynglŷn â'i ymddygiad yn y dyfodol, cyn belled â nad yw wedi peryglu diogelwch teithwyr.
- 4.5 Caiff Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd ddiddymu trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat os yw'r deiliad wedi cael collfarn am dor-amod difrifol o gyfraith drwyddedu.

#### *Anghymhwysio rhag Gyrru (ac eithrio Troseddau Yfed/Gyrru)*

- 4.6 Ym mharagraffau 4.7 i 4.10 isod, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y cyfnod anghymhwysio cyfan i'r gyrrwr, a bydd yn diystyru penderfyniad llys i ddiystyru neu leihau cyfnod anghymhwysio naill ar sail caledi eithriadol dan A.35 o Ddeddf Troseddwyrr Traffig 1988 neu ar sail "rhesymau arbennig" dan A.34 o Ddeddf Troseddwyrr Traffig 1988.

- 4.7 Pan gaiff gyrrwr gyfnod anghymhwysu byr o ganlyniad i gollfarn ddiweddar (llai na 56 o ddiwrnodau) mae'n annhebygol y cyflwynir trwydded heblaw y bu cyfnod o chwe mis neu fwy ers diwedd y cyfnod anghymhwysu. Mae modd i'r Pwyllgor leihau'r cyfnod chwe mis hwn yn ôl ei ddisgresiwn, os yw ymgeisydd wedi cwblhau rhagor o hyfforddiant a phrawf gyrru cydnabyddedig arall yn llwyddiannus ers diwedd y cyfnod anghymhwysu.
- 4.8 Os caiff gyrrwr ei anghymhwysu, neu os gellid ei anghymhwysu, ar sail nifer y pwyntiau cosb y mae wedi eu cronni mewn cyfnod o dair blynedd oherwydd y system "gronnol", mae'n annhebygol y cymeradwyir ei gais am drwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat/hacni yn y 12 o fisoedd ar ôl diwedd y cyfnod anghymhwysu. Mae modd i'r Pwyllgor leihau'r cyfnod 12 mis hwn yn ôl ei ddisgresiwn, os yw ymgeisydd wedi cwblhau rhagor o hyfforddiant a phrawf gyrru cydnabyddedig arall yn llwyddiannus ers diwedd y cyfnod anghymhwysu.
- 4.9 Mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymeradwyo cais am drwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat/hacni yn y tair blynedd ar ôl diwedd cyfnod anghymhwysu sy'n hwy na 12 mis. Mae modd i Bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd leihau'r cyfnod 12 mis hwn yn ôl ei ddisgresiwn, os yw ymgeisydd wedi cwblhau rhagor o hyfforddiant a phrawf gyrru cydnabyddedig arall yn llwyddiannus ers diwedd y cyfnod anghymhwysu.
- 4.10 Fel arfer, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried cais am drwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat/hacni gan berson a anghymhwyswyd rhag gyrru am bum mlynedd neu fwy.

#### *Gyrru dan Ddylanwad Alcohol neu Gyffuriau*

- 4.11 Caiff cyfnod anghymhwysu rhag gyrru oherwydd collfarn gyrru neu reoli cerbyd gan ddylanwad cyffuriau neu alcohol ei ystyried yn fwy difrifol na chyfnod anghymhwysu dan baragraffau 4.7 a 4.8 uchod. Mae'n annhebygol y caiff cais ei wrthod ar sail collfarn unigol, cyn belled â bod tair blynedd neu fwy wedi bod ers diwedd y cyfnod anghymhwysu. Mae modd trin collfarn am 'wrthod darparu sampl neu fethu â gwneud hynny pan ofynnwyd am un' yn yr un modd.
- 4.12 Dylai cyfnod o bum mlynedd neu fwy fynd heibio cyn iddi fod yn debygol y cymeradwyir cais gan ymgeisydd sydd â mwy nag un gollfarn am drosedd o'r fath. Efallai y bydd archwiliad meddygol arbennig yn ofynnol cyn i gais gael ei ystyried. Pan ddaw i'r amlwg bod angen triniaeth feddygol ar ymgeisydd, ni fydd cais arall yn debygol o gael ei gymeradwyo am bum mlynedd ar ôl triniaeth lwyddiannus.

#### *Troseddau Cysylltiedig â Chyffuriau*

- 4.13 Mae'n debygol y bydd yn ofynnol i ymgeisydd sydd â chollfarn am feddu ar sylwedd anghyfreithlon ddangos nad yw wedi cael collfarn ers pum mlynedd cyn y cymeradwyir cais ganddo. Os yw'r ymgeisydd wedi cael triniaeth am

ddibyniaeth, pum mlynedd fydd y cyfnod hwn, yn dilyn triniaeth ddadwenwyno lwyddiannus.

- 4.14 Mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymeradwyo cais gan berson a gafodd gollfarn am unrhyw drosedd os bu cyflenwi sylweddau anghyfreithlon i eraill yn rhan ohoni, heblaw nad yw wedi cael collfarn droseddol ers o leiaf 10 mlynedd.

#### *Meddwdod (Ddim mewn Cerbyd Modur)*

- 4.15 Mae'n annhebygol y caiff cais ei wrthod neu y caiff trwydded ei diddymu ar sail collfarn unigol am feddwdod, cyn belled â nad yw'n gysylltiedig ag ymddygiad troseddol arall.
- 4.16 Gallai mwy nag un gollfarn am feddwdod fod yn arwydd o broblem feddygol ac efallai y bydd angen adroddiad meddygol. Os bydd gan ymgeisydd ddibyniaeth ar alcohol yn ôl asesiad, ni ystyrir cais ganddo cyn pen tair blynedd ar ôl triniaeth lwyddiannus. Efallai y caiff trwydded gyfredol deiliad ei hatal yn ystod y cyfnod cyn y cyhoeddir yr adroddiad meddygol. Caiff trwydded ei diddymu ar sail dibyniaeth ar alcohol yn ôl adroddiad meddygol.

#### *Anwedduster a Throseddau Rhywiol Eraill*

- 4.17 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn cyflwyno cais gan berson sydd wedi cael collfarn am unrhyw drosedd os oedd camymddwyn rhywiol yn rhan ohoni, gan gynnwys dinoethi anweddus, ymosod anweddus, llithio neu unrhyw droseddau rhywiol difrifol eraill hyd nes bod cyfnod sylweddol (o leiaf tair i bum mlynedd) wedi mynd heibio heb gollfarnau pellach. Rhoddir ystyriaeth i unrhyw wybodaeth berthnasol arall a ddatgelir, yn ôl disgrisiwn y Prif Swyddog Heddlu.

#### *Trais*

- 4.18 Mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymeradwyo cais gan berson sydd wedi cael collfarn am drosedd os defnyddiodd drais yn rhan ohono ac os parodd niwed corfforol gwirioneddol, niwed corfforol difrifol, clwyf, neu os oedd ymosod yn rhan ohoni, hyd nes bod modd i'r ymgeisydd brofi nad yw wedi troseddu ers o leiaf pum mlynedd. Mae modd i ddeiliad trwydded sydd wedi'i gollfarnu am drosedd o'r fath gael ei drwydded wedi'i diddymu.
- 4.19 Mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymeradwyo cais gan berson sydd wedi cael collfarn os bu trais neu ymddygiad ymosodol tuag at swyddog heddlu yn rhan ohoni.
- 4.20 Fel arfer bydd y Pwyllgor yn diddymu trwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat/hacni os yw'r deiliad wedi cael collfarn am drosedd os oedd peri rhwystr i swyddog heddlu neu swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Lleol, gwneud datganiad anwir iddo, defnyddio trais tuag ato, neu ymddwyn yn ymosodol tuag ato yn rhan ohoni, wrthi iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau.

### *Anonestrwydd*

- 4.21 Mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymeradwyo cais gan berson sydd wedi cael collfarn am drosedd os bu'n anonest yn rhan ohoni, heblaw bod modd i'r ymgeisydd ddangos nad yw wedi troseddu ers tair blynedd. Caiff y Pwyllgor wrthod y cais ar ôl hynny hefyd, heblaw bod modd i'r ymgeisydd ddarparu geiradaon gan o leiaf dwy ffynhonnell ddibynadwy, er enghraifft cyflogwr, swyddog cyfnod prawf, yn rhan o'r cais.

### *Troseddu a Ailadroddir*

- 4.22 Mae'n annhebygol y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cymeradwyo cais gan berson sydd â hanes o droseddu parhaus, pan fo'r hanes hwnnw yn dangos diffyg ystyriaeth o bobl eraill neu o eiddo, heblaw bod cyfnod o ddeng mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn ddiweddaraf. Caiff y Pwyllgor wrthod y cais ar ôl hynny hefyd, heblaw bod modd i'r ymgeisydd ddarparu geiradaon cymeriad gan o leiaf dwy ffynhonnell ddibynadwy, er enghraifft cyflogwr, swyddog cyfnod prawf, yn rhan o'r cais.

## **5. Trwyddedau Prawf**

- 5.1 Caiff y Pwyllgor gyflwyno trwydded 'brawf' am gyfnod o lai na 12 mis os oes cyfiawnhad rhesymol dros wneud hynny.

## **6. Preswylwyr Tramor**

- 6.1 Os yw ymgeisydd wedi treulio chwe mis neu fwy dramor, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl gweld tystiolaeth o gofnod troseddol gan y wlad neu'r gwledydd ar gyfer y cyfnod hwnnw.

## **7. Trwyddedau a Gyflwynir gan Awdurdodau Eraill**

- 7.1 Pan fo cais am drwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat wedi cael ei gyfeirio at Bwyllgor Diogelu'r Cyhoedd yn unol â'r polisi hwn, ac mae gan yr ymgeisydd drwydded gan awdurdod lleol arall, dilynir y canllawiau yn y polisi hwn yn hytrach na phenderfyniad awdurdod arall.

## **8. Apeliadau**

- 8.1 Nid oes modd apelio'n uniongyrchol yn erbyn pwyntiau cosb dan gynllun anstatudol y Cyngor. Er hynny, os bydd unrhyw berson yn anfodlon ar benderfyniad y Pwyllgor i ddiddymu, atal neu wrthod trwydded yrru, neu ar amodau trwydded, caiff apelio i'r Llys Ynadon o fewn 21 o ddiwrnodau ar ôl cael gwybod y penderfyniad. Byddai'r gosb fel arfer yn cael ei hatal hyd nes bod yr apêl wedi ei benderfynu neu ei fod wedi ei ddiddymu, ond mewn amgylchiadau eithriadol caiff yr awdurdod trwyddedu benderfynu rhoi'r gosb mewn grym hyd nes bod yr apêl yn cael ei benderfynu.

## 5.8 System Pwyntiau Cosb

Cytunodd y Pwyllgor Trwyddedu gyflwyno system Pwyntiau Cosb i'w defnyddio pan fo achosion o gamymddwyn gan Yrwy'r Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Trwyddedig. O ganlyniad i hynny, mae'r Pwyllgor Trwyddedu wedi pennu canllawiau ar weinyddu'r system ac mae wedi penderfynu'r canlynol:

- (1) caiff categorïau troseddau, ac ystod y pwyntiau cosb isod, eu mabwysiadu fel canllawiau, a chaiff pob mater ei ystyried yn ôl ei deilyngdod a'i amgylchiadau:

(a)	<u>Ymosod</u>	<u>Ystod Pwyntiau</u>
(i)	Â gyrwyr eraill ynghlwm	1-4
(ii)	Ag aelodau o'r cyhoedd ynghlwm	4-8
(b)	<u>Aflonyddu</u>	
(i)	Â gyrwyr eraill ynghlwm	1-4
(ii)	Ag aelodau o'r cyhoedd ynghlwm	4-8
(c)	<u>Twyll</u>	
(i)	Â gyrwyr eraill ynghlwm	1-4
(ii)	Ag aelodau o'r cyhoedd ynghlwm	4-8
(iii)	Heb wisgo bathodyn	2
(ch)	<u>Camdriniaeth</u>	
(i)	Â gyrwyr eraill ynghlwm	1-4
(ii)	Ag aelodau o'r cyhoedd ynghlwm	4-8
(d)	<u>Rhwystro</u>	
(i)	Â gyrwyr eraill ynghlwm	1-4
(ii)	Ag aelodau o'r cyhoedd ynghlwm	4-8
(dd)	<u>Hysbysiadau Stop Niferus</u>	
(i)	3 neu fwy mewn 3 mis	1-4
(ii)	Cerbydau â namau o ran y canlynol:	4-8
(a)	Teiars llyfn	
(b)	Goleuadau	
(c)	Rhannau ac ategion peryglus	
(e)	<u>Achosion niferus o Dor-amod</u>	
(i)	3 neu fwy mewn 3 mis	4-8



(2) o ganlyniad i gronni deg o bwyntiau neu fwy yn ystod tair blynedd, caiff y drwydded ei diddymu, fel arfer.

5.9 Yn rhan o bolisi, mewn amgylchiadau eithriadol mae modd i'r awdurdod trwyddedu atal neu ddiddymu trwydded ar unwaith os yw hynny er budd y cyhoedd yn ei dyb.